

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU

NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 5 Hydref 2010
Tabled on 5 October 2010

Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)
Proposed Welsh Language (Wales) Measure

Alun Ffred Jones

1

Long title, page 12, line 1, leave out 'further'.

Teitl hir, tudalen 12, llinell 1, gadewch allan 'bellach'.

Alun Ffred Jones

2

Long title, page 12, line 2, after 'Wales;', insert 'to provide for a Welsh Language Partnership Council;'.

Teitl hir, tudalen 12, llinell 2, ar ôl 'Nghymru;', ychwanegwch 'i ddarparu ar gyfer Cyngor Partneriaeth y Gymraeg;'.

Alun Ffred Jones

3

Long title, page 12, line 5, leave out 'promoting equality between the Welsh and English languages' and insert 'working towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language'.

Teitl hir, tudalen 12, llinell 4, gadewch allan 'hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r' a rhowch yn ei le 'gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r'.

Alun Ffred Jones

4

Long title, page 12, line 6, after 'language', insert '(including duties to comply with those standards, and rights arising from the enforceability of those duties)'.

Teitl hir, tudalen 12, llinell 5, ar ôl 'Gymraeg', ychwanegwch '(gan gynnwys dyletswyddau i gydymffurfio â'r safonau hynny, a hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny)'.

***Alun Ffred Jones**

5

Page 12, line 13, leave out subsections 1 to 2 and insert –

- () The Welsh language has official status in Wales.
- () The official status of the Welsh language is given legal effect by the enactments about –
 - (a) duties on bodies to use the Welsh language, and the rights which arise from the enforceability of those duties, which enable Welsh speakers to use the language in dealings with those bodies (such as the provision of services by those bodies);
 - (b) the treatment of the Welsh language no less favourably than the English language;
 - (c) the validity of the use of the Welsh language;
 - (d) the promotion and facilitation of the use of the Welsh language;
 - (e) the freedom of persons wishing to use the Welsh language to do so with one another;
 - (f) the creation of the Welsh Language Commissioner; and
 - (g) other matters relating to the Welsh language.
- () Those enactments include (but are not limited to) the enactments which –
 - (a) require the Welsh and English languages to be treated on the basis of equality in the conduct of the proceedings of the National Assembly for Wales;
 - (b) confer a right to speak the Welsh language in legal proceedings in Wales;
 - (c) give equal standing to the Welsh and English texts of –
 - (i) Measures and Acts of the National Assembly for Wales, and

- (ii) subordinate legislation;
- (d) impose a duty on the Welsh Ministers to adopt a strategy setting out how they propose to promote and facilitate the use of the Welsh language;
- (e) create standards of conduct that relate to the use of the Welsh language, or the treatment of the Welsh language no less favourably than the English language, in connection with –
 - (i) delivering services,
 - (ii) making policy, and
 - (iii) exercising functions or conducting businesses and other undertakings;
- (f) create standards of conduct in promoting and facilitating the use of the Welsh language;
- (g) create standards of conduct for keeping records in connection with the Welsh language;
- (h) impose a duty to comply with those standards of conduct that are created, and create remedies for failures to comply with them; and
- (i) create the Welsh Language Commissioner with functions that include –
 - (i) promoting the use of the Welsh language,
 - (ii) facilitating the use of the Welsh language,
 - (iii) working towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language
 - (iv) conducting inquiries into matters relating to the Commissioner's functions, and
 - (v) investigating interference with the freedom to use the Welsh language.'

Tudalen 12, llinell 12, gadewch allan is-adrannau 1 hyd at 2 a rhowch yn ei lle –

- '() Mae statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.
- () Rhoddir effaith gyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg drwy gyfrwng deddfiadau ynghylch y canlynol –
 - (a) dyletswyddau ar gyrff i ddefnyddio'r Gymraeg, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny, sy'n galluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn ymwneud y cyrff hynny â hwy (megis darparu gwasanaethau gan y cyrff hynny);
 - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
 - (c) dilysrwydd defnyddio'r Gymraeg;
 - (d) hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg;
 - (e) rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny gyda'i gilydd;
 - (f) creu swydd Comisiynydd y Gymraeg; ac
 - (g) materion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

- () Mae'r deddfiadau hynny'n cynnwys deddfiadau sy'n gwneud y canlynol (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt) –
- (a) ei gwneud yn ofynnol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal yn nhrefodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
 - (b) rhoi hawl i siarad Cymraeg mewn achosion cyfreithiol yng Nghymru;
 - (c) rhoi statws cyfartal i destunau Cymraeg a Saesneg –
 - (i) Mesurau a Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a
 - (ii) is-ddeddfwriaeth;
 - (d) gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i fabwysiadu strategaeth sy'n nodi sut y maent yn bwriadu hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg;
 - (e) creu safonau ymddygiad sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg, neu â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, mewn cysylltiad –
 - (i) â chyflenwi gwasanaethau,
 - (ii) â llunio polisi, a
 - (iii) ag arfer swyddogaethau neu gynnal busnesau neu ymgymeriadau eraill;
 - (f) creu safonau ymddygiad o ran hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg;
 - (g) creu safonau ymddygiad ar gyfer cadw cofnodion mewn cysylltiad â'r Gymraeg;
 - (h) gosod dyletswydd i gydymffurfio â'r safonau ymddygiad hynny sy'n cael eu creu, a chreu rhwymedïau am fethiannau i gydymffurfio â hwy; ac
 - (i) creu swydd Comisiynydd y Gymraeg a chanddi swyddogaethau sy'n cynnwys –
 - (i) hybu defnyddio'r Gymraeg,
 - (ii) hwyluso defnyddio'r Gymraeg,
 - (iii) gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg,
 - (iv) cynnal ymholiadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd, a
 - (v) ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.'.

To insert a new Section –

'General duty

[] The Commissioner's principal aim

- (1) The principal aim of the Commissioner in exercising his or her functions is to promote and facilitate the use of the Welsh language.
- (2) The actions which the Commissioner must undertake in exercising functions in accordance with subsection (1) include (but are not limited to) working towards increasing –
 - (a) the use of the Welsh language in the provision of services, and
 - (b) other opportunities for persons to use the Welsh language.
- (3) In exercising functions in accordance with subsection (1), the Commissioner must have regard to –
 - (a) the official status which the Welsh language has in Wales,
 - (b) the duties to use Welsh which are (or may be) imposed by law, and the rights which arise from the enforceability of those duties,
 - (c) the principle that, in Wales, the Welsh language should be treated no less favourably than the English language, and
 - (d) the principle that persons in Wales should be able to live their lives through the medium of the Welsh language if they choose to do so.'

I ychwanegu Adran newydd –

'Dyletswydd gyffredinol

[] Prif nod y Comisiynydd

- (1) Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
- (2) Mae'r camau y mae'n rhaid i'r Comisiynydd eu cymryd wrth arfer swyddogaethau yn unol ag is-adran (1) yn cynnwys gweithio tuag at gynyddu'r canlynol (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt) –
 - (a) defnyddio'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a
 - (b) cyfleoedd eraill i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg.
- (3) Wrth arfer swyddogaethau'n unol ag is-adran (1), rhaid i'r Comisiynydd roi sylw –
 - (a) i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru,

- (b) i'r dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod (neu a all gael eu gosod) drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny,
- (c) i'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, a
- (d) i'r egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.'

Alun Ffred Jones

7

Section 3, page 13, line 15, leave out 'promote equality between the Welsh and English languages' and insert 'work towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language'.

Adran 3, tudalen 13, llinell 16, gadewch allan 'hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r' a rhowch yn ei le 'gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r'.

Alun Ffred Jones

8

Section 5, page 15, line 3, leave out subsection (6).

Adran 5, tudalen 15, llinell 3, gadewch allan is-adran (6).

Alun Ffred Jones

9

Section 6, page 16, leave out lines 1 to 4.

Adran 6, tudalen 16, gadewch allan linellau 1 hyd at 5.

Alun Ffred Jones

10

Section 7, page 16, line 10, leave out ', whether for judicial review or otherwise,'.

Adran 7, tudalen 16, llinell 10, gadewch allan 'boed ar gyfer adolygiad barnwrol neu fater arall,'.

Alun Ffred Jones **11**

Section 11, page 18, line 21, leave out 'staff of the Commissioner' and insert 'members of the Commissioner's staff'.

(Nid oes angen diwygio'r fersiwn Gymraeg. There is no need to amend the Welsh version.)

Alun Ffred Jones **12**

Section 15, page 19, after line 35, insert –

- '() But the Welsh Ministers may not direct the Commissioner in relation to the following matters –
- (a) giving a compliance notice to a person under Chapter 6 of Part 4 (including the content of a compliance notice to be given to a person);
 - (b) Part 5 (enforcement of standards);
 - (c) Part 6 (the freedom to use Welsh).'

Adran 15, tudalen 19, ar ôl llinell 34, ychwanegwch –

- '() Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiynydd mewn perthynas â'r materion canlynol –
- (a) rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson o dan Bennod 6 o Ran 4 (gan gynnwys cynnwys hysbysiad cydymffurfio sydd i'w roi i berson);
 - (b) Rhan 5 (gorfodi safonau);
 - (c) Rhan 6 (rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg).'

Alun Ffred Jones **13**

Section 18, page 21, line 2, leave out subsection (6).

Adran 18, tudalen 21, llinell 2, gadewch allan is-adran (6).

Alun Ffred Jones **14**

Section 20, page 22, leave out lines 11 to 12.

Adran 20, tudalen 22, gadewch allan linellau 10 hyd at 11.

Alun Ffred Jones 15

Section 20, page 22, line 14, leave out 'that' and insert 'a particular'.

Adran 20, tudalen 22, llinell 12, gadewch allan 'yr ombwdsmon hwnnw' a rhowch yn ei le 'ombwdsmon penodol'.

Alun Ffred Jones 16

Section 20, page 22, line 21, leave out 'Commissioner's'.

Adran 20, tudalen 22, llinell 20, gadewch allan 'ag ymchwiliad y Comisiynydd' a rhowch yn ei le 'â'r ymchwiliad'.

Alun Ffred Jones 17

Section 20, page 23, line 14, leave out 'jointly'.

Adran 20, tudalen 23, llinell 17, gadewch allan 'ar y cyd â'r' a rhowch yn ei le 'gyda'r'.

Alun Ffred Jones 18

Section 27, page 28, line 6, leave out 'promote or facilitate the treatment of the Welsh and English languages on the basis of equality' and insert 'work towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language'.

Adran 27, tudalen 28, llinell 5, gadewch allan 'hybu neu hwyluso trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb' a rhowch y ei le 'weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg'.

Alun Ffred Jones 19

Section 28, page 28, leave out line 22 and insert –

(b) working towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language.'

Adran 28, tudalen 28, llinell 24, gadewch allan 'drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb' a rhowch y ei le 'weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg'.

Alun Ffred Jones

20

Section 28, page 28, leave out line 27 and insert –

‘(b) working towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language.’.

Adran 28, tudalen 28, llinell 29, gadewch allan ‘drin y Gymraeg a’r Saesneg ar sail cydraddoldeb’ a rhowch y ei le ‘weithio tuag at sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.’.

Alun Ffred Jones

21

Section 28, page 28, leave out line 32 and insert –

‘(b) working towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language.’.

Adran 28, tudalen 28, llinell 34, gadewch allan ‘drin y Gymraeg a’r Saesneg ar sail cydraddoldeb’ a rhowch y ei le ‘weithio tuag at sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.’.

Alun Ffred Jones

22

Section 37, page 32, after line 29, insert –

- ‘(d) a National Park authority’s entry;
 - (e) an entry for any other person, but only if the person has given consent that promotion standards should be potentially applicable to that person.
- () For the purpose of subsection (3) –
- (a) “consent” means consent in writing given to the Welsh Ministers;
 - (b) a person may withdraw consent, but only with the agreement of the Welsh Ministers;
 - (c) if a person withdraws consent after that person’s entry has been amended to include a reference to promotion standards, the Welsh Ministers must amend the Schedule 6 table by removing the reference to promotion standards in the entry for that person.’.

Adran 37, tudalen 32, ar ôl llinell 30, ychwanegwch –

- ‘(d) cofnod awdurdod Parc Cenedlaethol;
 - (e) cofnod unrhyw berson arall, ond dim ond os yw’r person wedi cydsynio y dylai safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.
- () At ddibenion is-adran (3) –
- (a) ystyr “cydsyniad” yw cydsyniad ysgrifenedig a roddir i Weinidogion Cymru;

- (b) caniateir i berson dynnu cydsyniad yn ôl, ond dim ond os yw Gweinidogion Cymru yn cytuno i hynny;
- (c) os yw person yn tynnu cydsyniad yn ôl ar ôl i gofnod y person hwnnw gael ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at safonau hybu, rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 drwy ddileu'r cyfeiriad at safonau hybu yng nghofnod y person hwnnw.'.

Alun Ffred Jones

23

Adran 40, tudalen 33, llinell 32, ar ôl 'un', ychwanegwch 'neu ragor'.

(Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.)

Alun Ffred Jones

24

Section 40, page 34, line 1, leave out 'a particular' and insert 'one'.

(Nid oes angen diwygio'r fersiwn Gymraeg. There is no need to amend the Welsh version.)

Alun Ffred Jones

25

Adran 41, tudalen 34, llinell 10, gadewch allan '26(1)' a rhowch yn ei le '25(1)'.

(Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.)

Alun Ffred Jones

26

Section 41, page 34, after line 10, insert –

- '() But the Welsh Ministers need not secure that regulations provide for service delivery standards to be specifically applicable to P in relation to an activity specified in Schedule 9 if, or to the extent that –
 - (a) a standards report under section 62 indicates that it would be unreasonable or disproportionate for service delivery standards to be specifically applicable to P in relation to that activity, or
 - (b) the Welsh Ministers think it would be unreasonable or disproportionate for service delivery standards to be specifically applicable to P in relation to that activity.'.

Adran 41, tudalen 34, ar ôl llinell 11, ychwanegwch –

- (i) Ond nid oes rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn darparu i safon cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae –
- (a) adroddiad safonau o dan adran 62 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu
 - (b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.'

Alun Ffred Jones

27

Section 51, page 38, line 18, leave out '8' and insert '7'.

Adran 51, tudalen 38, llinell 20, gadewch allan '8' a rhowch yn ei le '7'.

Alun Ffred Jones

28

Section 51, page 38, line 28, after 'in', insert 'inspecting or gaining access to'.

Adran 51, tudalen 38, llinell 30, gadewch allan 'yn yr hysbysiad' a rhowch yn ei le 'mewn archwilio a chael at hysbysiadau'.

Alun Ffred Jones

29

Section 52, page 39, line 8, leave out 'result produced by' and insert 'change described in'.

Adran 52, tudalen 39, llinell 11, gadewch allan 'canlyniad a geir drwy gyfrwng' a rhowch yn ei le 'newid a ddisgrifir yn'.

Alun Ffred Jones

30

Adran 53, tudalen 39, llinell 22, gadewch allan 'er mwyn' a rhowch yn ei le 'yn gofyn'.

(Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.)

Alun Ffred Jones

31

Section 53, page 39, after line 26, insert –

‘(5) In this section “imposition day” has the same meaning as in section 45.’.

Adran 53, tudalen 39, ar ôl llinell 28, ychwanegwch –

‘(5) Yn yr adran hon, mae i’r ymadrodd “diwrnod gosod” yr ystyr sydd iddo yn adran 45.’.

Alun Ffred Jones

32

Adran 54, tudalen 40, llinell 1, gadewch allan ‘er mwyn’ a rhowch yn ei le ‘yn gofyn’.

(Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.)

Alun Ffred Jones

33

Adran 55, tudalen 40, llinell 14, gadewch allan ‘er mwyn’ a rhowch yn ei le ‘yn gofyn’.

(Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.)

Alun Ffred Jones

34

Adran 56, tudalen 40, llinell 33, ar ôl ‘berson’, ychwanegwch ‘arall’.

(Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.)

Alun Ffred Jones

35

Section 56, page 41, line 7, leave out ‘45’ and insert ‘45(3)’.

Adran 56, tudalen 41, llinell 7, gadewch allan ‘45’ a rhowch yn ei le ‘45(3)’.

Alun Ffred Jones

36

Adran 57, tudalen 41, llinell 14, gadewch allan ‘er mwyn’ a rhowch yn ei le ‘yn gofyn’.
(Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.)

Alun Ffred Jones

37

Section 57, page 41, after line 26, insert –

‘(7) This section is subject to Tribunal Rules (which may, amongst other things, make provision about the manner in which appeals under this section may be brought).’.

Adran 57, tudalen 41, ar ôl llinell 27, ychwanegwch –

‘(7) Mae’r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau’r Tribiwnlys (sy’n cael gwneud, ymysg pethau eraill, ddarpariaeth ynghylch y modd y ceir dwyn apelau o dan yr adran hon).’.

Alun Ffred Jones

38

To insert a new Section –

[] Appeals from Tribunal

- (1) This section applies if the Tribunal has decided an appeal under section 57.
- (2) The Commissioner or P may, with the permission of the Tribunal or High Court, appeal to the High Court on a question of law arising out of the decision.
- (3) If the High Court finds that the Tribunal has made an error on a point of law, the High Court –
 - (a) may set aside the decision of the Tribunal, and
 - (b) if it sets the decision aside, must either –
 - (i) remit the case to the Tribunal with directions for its reconsideration, or
 - (ii) re-make the decision.
- (4) The directions that the High Court may give under subsection (3)(b)(i) include, but are not limited to, either or both of the following –
 - (a) a direction that the persons who are to reconsider the case must not be the persons who made the decision that has been set aside;
 - (b) procedural directions in connection with the reconsideration of the case.

- (5) In re-making the decision in accordance with subsection (3)(b)(ii), the High Court –
 - (a) may make any decision which the Tribunal could make if the Tribunal were making the decision, and
 - (b) may make such findings of fact as the High Court thinks appropriate.
- (6) An application for permission to appeal must be made to the Tribunal or High Court within the period of 28 days beginning with the day when the Tribunal notified the person making the application of its determination of the appeal under section 57.
- (7) But the Tribunal or High Court may, on a written application by the Commissioner or P, allow an appeal to be made after the end of that period if the Tribunal or High Court is satisfied that there is a good reason –
 - (a) for the failure to apply for permission to appeal before the end of that period, and
 - (b) if there has been any delay in applying for permission to appeal out of time, for that delay.’.

I ychwanegu Adran newydd –

[] **Apelau o’r Tribiwnlys**

- (1) Mae’r adran hon yn gymwys os yw’r Tribiwnlys wedi penderfynu apêl o dan adran 57.
- (2) Caiff y Comisiynydd neu P, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu’r Uchel Lys, apelio i’r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy’n deillio o’r penderfyniad.
- (3) Os yw’r Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad ar bwynt cyfreithiol –
 - (a) caiff yr Uchel Lys osod penderfyniad y Tribiwnlys o’r naill du, a
 - (b) os bydd yr Uchel Lys yn gosod y penderfyniad o’r naill du, rhaid iddo naill ai –
 - (i) anfon yr achos yn ôl i’r Tribiwnlys gyda chyfarwyddyd ar gyfer ei ailystyried, neu
 - (ii) ail-wneud y penderfyniad.
- (4) Mae’r cyfarwyddiadau y caniateir i’r Uchel Lys eu rhoi o dan is-adran (3)(b)(i) yn cynnwys y canlynol, ond heb fod wedi eu cyfyngu iddynt –
 - (a) cyfarwyddyd na all y personau sydd i ailystyried yr achos fod yr un rhai â’r personau a wnaeth y penderfyniad sydd wedi ei roi o’r naill du;
 - (b) cyfarwyddiadau gweithredu mewn cysylltiad ag ailystyried yr achos.
- (5) Wrth ail-wneud y penderfyniad yn unol ag is-adran (3)(b)(ii), caniateir i’r Uchel Lys –
 - (a) gwneud unrhyw benderfyniad y gallai’r Tribiwnlys ei wneud pe bai’r Tribiwnlys yn gwneud y penderfyniad, a
 - (b) gwneud y canfyddiadau ffeithiol sy’n briodol yn nhyb yr Uchel Lys.

- (6) Rhaid i gais am ganiatâd i apelio gael ei wneud i'r Tribiwnlys neu'r Uchel Lys o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod yr hysbysodd y Tribiwnlys y person sy'n gwneud y cais o'i ddyfarniad ar yr apêl o dan adran 57.
- (7) Ond caiff y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, ar gais ysgrifenedig gan y Comisiynydd neu P, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw os yw'r Tribiwnlys neu'r Uchel Lys wedi ei fodloni bod rheswm da –
 - (a) dros y methiant i wneud cais am ganiatâd i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a
 - (b) os oedd unrhyw oedi wedi bod cyn gwneud y cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol, dros yr oedi hwnnw.'.

Alun Ffred Jones

39

Section 58, page 41, line 37, leave out '57' and insert '57(3)'.

Adran 58, tudalen 41, llinell 38, gadewch allan '57' a rhowch yn ei le '57(3)'.

Alun Ffred Jones

40

Section 58, page 42, line 1, after 'determined', insert ', and a further appeal –

- (i) may not be made, or
- (ii) may be made only with the permission of the Tribunal or a court'.

Adran 58, tudalen 42, llinell 1, ar ôl 'dyfarnu', ychwanegwch 'ac, o ran apêl bellach –

- (i) na ellir gwneud un, neu
- (ii) na ellir gwneud un heb ganiatâd y Tribiwnlys neu ganiatâd llys'.

Alun Ffred Jones

41

Section 59, page 42, line 12, leave out 'specifically' and insert 'potentially'.

Adran 59, tudalen 42, llinell 11, gadewch allan 'benodol gymwys' a rhowch yn ei le 'gymwysadwy'.

Alun Ffred Jones

42

Section 61, page 43, after line 9, insert –

- ‘() If the Commissioner decides, or is directed, that a standards investigation is to consider whether service delivery standards should be specifically applicable to P, the investigation must –
- (a) consider whether, in respect of each of the activities specified in Schedule 9 which P carries out, it is reasonable and proportionate for service delivery standards to be specifically applicable to P, and
 - (b) as respects each such activity, if it is reasonable and proportionate for service delivery standards to be specifically applicable to P, conclude that service delivery standards should be specifically applicable to P in relation to that activity.’.

Adran 61, tudalen 43, ar ôl llinell 9, ychwanegwch –

- ‘() Os yw’r Comisiynydd yn penderfynu, neu’n cael ei gyfarwyddo, bod ymchwiliad safonau i ystyried a ddylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P, rhaid i’r ymchwiliad –
- (a) ystyried, o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae P yn ei wneud, a yw’n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P ai peidio, a
 - (b) o ran pob gweithgaredd o’r fath, os yw’n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P, ddod i’r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P mewn perthynas â’r gweithgaredd hwnnw.’.

Alun Ffred Jones

43

Section 61, page 43, line 10, after ‘Commissioner’, insert ‘must consult’.

Adran 61, tudalen 43, llinell 10, ar ôl ‘safonau’, ychwanegwch ‘, rhaid i’r Comisiynydd ymgynghori’.

Alun Ffred Jones

44

Section 61, page 43, leave out lines 11 to 15 and insert –

- ‘(a) each relevant person,
- (b) the Advisory Panel, and
- (c) the public, except –
 - (i) if, or
 - (ii) to the extent thatthe Commissioner considers that it is inappropriate to do so.’

Adran 61, tudalen 43, gadewch allan linellau 11 hyd at 15 a rhowch yn eu lle –

- ‘(a) â phob person perthnasol,
- (b) â’r Panel Cyngori, ac
- (c) â’r cyhoedd, ac eithrio –
 - (i) os yw’n ystyried, neu
 - (ii) i’r graddau y mae’n ystyriedei bod yn amhriodol gwneud hynny.’

Alun Ffred Jones

45

Section 62, page 44, leave out lines 4 to 6 and insert –

- ‘(i) each relevant person,
 - (ii) the Advisory Panel,
 - (iii) each person who participated in the Commissioner’s consultation under section 61, and
 - (iv) the Welsh Ministers, and
 - (b) may send a copy of the report to any other person whom the Commissioner considers to have an interest in the report.
- (5) In this section “relevant person” means –
- (a) in the case of a standards investigation relating to a particular person, that person;
 - (b) in the case of a standards investigation relating to a group of persons, such persons –
 - (i) who appear to the Commissioner to be members of the group, and

- (ii) to whom the Commissioner thinks it appropriate to give a copy of the report.’.

Adran 62, tudalen 44, gadewch allan linellau 4 hyd at 5 a rhowch yn eu lle –

- ‘(i) at bob person perthnasol,
 - (ii) at y Panel Cyngori,
 - (iii) at bob person a gymerodd ran yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 61, a
 - (iv) at Weinidogion Cymru, a
- (b) caiff y Comisiynydd anfon copi o’r adroddiad at unrhyw berson arall a chanddo ddiddordeb yn yr adroddiad ym marn y Comisiynydd.
- (5) Yn yr adran hon, ystyr “person perthnasol” –
- (a) yn achos ymchwiliad safonau mewn perthynas â pherson penodol, yw’r person hwnnw;
 - (b) yn achos ymchwiliad safonau mewn perthynas â grŵp o bersonau, yw personau –
 - (i) yr ymddengys i’r Comisiynydd eu bod yn aelodau o’r grŵp, a
 - (ii) y mae’n briodol anfon copi o’r adroddiad atynt yn nhyb y Comisiynydd.’.

Alun Ffred Jones

46

Adran 72, tudalen 48, llinell 15, ar ôl ‘person’, ychwanegwch ‘arall’.

(Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.)

Alun Ffred Jones

47

Adran 79, tudalen 52, llinell 19, gadewch allan ‘roi’ a rhowch yn ei le ‘baratoi a rhoi’.

(Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.)

Alun Ffred Jones

48

Section 84, page 55, line 17, leave out ‘consider’ and insert ‘have due regard to’.

Adran 84, tudalen 55, llinell 17, gadewch allan 'ystyried' a rhowch yn ei le 'roi sylw dyladwy i'.

Alun Ffred Jones

49

Section 85, page 56, line 4, after 'of', insert 'the Tribunal or'.

Adran 85, tudalen 56, llinell 5, ar ôl 'ganiatâd', ychwanegwch 'y Tribiwnlys neu ganiatâd'.

Alun Ffred Jones

50

Section 92, page 58, after line 29, insert –

'() The Tribunal must notify D and the Commissioner of its decision on an appeal under section 91.'

Adran 92, tudalen 58, ar ôl llinell 30, ychwanegwch –

'() Rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu D a'r Comisiynydd o'i benderfyniad ar apêl o dan adran 91.'

Alun Ffred Jones

51

Section 93, page 59, after line 13, insert –

'(6) An application for permission to appeal must be made to the Tribunal or High Court within the period of 28 days beginning with the day when the Tribunal notified the person making the application of its decision on the appeal under section 91.

(7) But the Tribunal or High Court may, on a written application by the Commissioner or P, allow an appeal to be made after the end of that period if the Tribunal or High Court is satisfied that there is a good reason –

(a) for the failure to apply for permission to appeal before the end of that period, and

(b) if there has been any delay in applying for permission to appeal out of time, for that delay.'

Adran 93, tudalen 59, ar ôl llinell 16, ychwanegwch –

'(6) Rhaid i gais am ganiatâd i apelio gael ei wneud i'r Tribiwnlys neu i'r Uchel Lys o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod yr hysbysodd y Tribiwnlys y person sy'n gwneud y cais o'i benderfyniad ar yr apêl o dan adran 91.

- (7) Ond caiff y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, ar gais ysgrifenedig gan y Comisiynydd neu P, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw os yw'r Tribiwnlys neu'r Uchel Lys wedi ei fodloni bod rheswm da—
- (a) dros y methiant i wneud cais am ganiatâd i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a
 - (b) os oedd unrhyw oedi wedi bod cyn gwneud y cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol, dros yr oedi hwnnw.'.

Alun Ffred Jones

52

To insert a new Section—

'[] Commissioner's duty on an appeal

- (1) This section applies if—
 - (a) the Commissioner has carried out an investigation under section 70 following a complaint under section 94, and
 - (b) an appeal under section 91 or 93, or any further appeal, is made in relation to the investigation.
- (2) The Commissioner must—
 - (a) as soon as reasonably practicable after being informed of the appeal, give the person who made the complaint notice that the appeal has been made, and
 - (b) as soon as reasonably practicable after being informed of the outcome of the appeal, give the person who made the complaint notice of the outcome.'.

I ychwanegu Adran newydd—

'[] Dyletswydd y Comisiynydd ar apêl

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys—
 - (a) os yw'r Comisiynydd wedi cynnal ymchwiliad o dan adran 70 yn dilyn cwyn o dan adran 94, a
 - (b) os gwneir apêl o dan adran 91 neu 93, neu os gwneir unrhyw apêl bellach, mewn perthynas â'r ymchwiliad.
- (2) Rhaid i'r Comisiynydd—
 - (a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael ei hysbysu o'r apêl, roi i'r person a wnaeth y gŵyn hysbysiad yn nodi bod yr apêl wedi ei gwneud, a
 - (b) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael ei hysbysu o ganlyniad yr apêl, roi i'r person a wnaeth y gŵyn hysbysiad yn nodi'r canlyniad.'.

Alun Ffred Jones

53

Section 94, page 59, line 30, leave out 'application' and insert 'complaint'.

Adran 94, tudalen 59, llinell 33, gadewch allan 'cais' a rhowch yn ei le 'y gŵyn'.

Alun Ffred Jones

54

Section 112, page 69, line 10, leave out ', in particular,'.

Adran 112, tudalen 69, llinell 10, gadewch allan ', yn benodol,'.

Alun Ffred Jones

55

Section 112, page 69, line 20, leave out 'in particular' and insert 'amongst other things'.

Adran 112, tudalen 69, llinell 19, gadewch allan 'yn benodol' a rhowch yn ei le 'ymysg pethau eraill'.

Alun Ffred Jones

56

Page 70, line 17, leave out section 113.

Tudalen 70, llinell 21, gadewch allan adran 113.

Alun Ffred Jones

57

Section 122, page 73, leave out lines 24 to 33 and insert –

‘(b) lay a copy of the report before the National Assembly for Wales.

- (2) The President must comply with any requirements of the National Assembly for Wales in relation to the form of the report and the laying of it.’

Adran 122, tudalen 73, gadewch allan linellau 25 hyd at 34 a rhowch yn eu lle –

